

CYFARFOD: PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

DYDDIAD: 9 CHWEFROR 2023

TEITL: CYLLIDEB 2023/24

PWRPAS: Cyflwyno'r gyllideb y bwriedir ei argymell gan y Cabinet i'r Cyngor i'w graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

GWEITHREDIAD: Craffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet argymell cyllideb 2023/24 i'r Cyngor llawn

AELOD CABINET: CYNGHORYDD IOAN THOMAS

SWYDDOG CYSWLLT: DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID

1. Yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig ac yn dod i gasgliad ynglŷn â'r gyllideb i'w gynnig i'r Cyngor, fydd yn cynnwys argymhelliad ynglŷn â'r cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2023/24 (gweler y penderfyniad a geisir ar flaen yr adroddiad Cabinet atodol).
2. Bydd y gyllideb yn cynnwys rhaglen o gynlluniau arbedion cyflwynir yn Atodiad 3, ynghyd â 'bidiau' ychwanegir at y gyllideb sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 2.
3. Rhoddir ystyriaeth i nifer o'r risgiau ariannol a'r camau perthnasol i sicrhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol, yn Atodiad 10.
4. Bydd y Cabinet yn rhoi ystyriaeth i'r adroddiad ar 14 Chwefror, ac wedi'r craffu yma, byddwn yn hysbysu'r Cabinet o gasgliadau'r Pwyllgor.
5. Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet ar yr opsiynau.
6. Nid rôl y Pwyllgor yw mynegi barn ar yr hyn dylai maint yr arbedion neu lefel y Dreth Cyngor fod, ond i sicrhau fod y Cabinet a'r Cyngor yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt, fel bod y penderfyniad sydd yn cael ei gymryd yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

7. Yn gryno, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fodloni ei hun fod y wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno yn yr adroddiad yma a'i atodiadau, yn ddigonol i alluogi'r Cabinet wneud argymhelliad ar gyllideb arfaethedig, ac i'r Cyngor ddod i benderfyniad ar sail yr wybodaeth fydd yn cael ei gyflwyno iddynt.
8. Er enghraifft
 - Ydi'r Pwyllgor yn fodlon fod y ffigyrau chwyddiant sydd wedi eu defnyddio yn rhesymol?
 - Oes cyfiawnhad i'r bidiau yr argymhellir eu cymeradwyo?
 - A yw unrhyw ddefnydd o falensau a chronfeydd yn rhesymol?
 - Oes modd cael sicrwydd fod yr arbedion a gynhigir yn rhesymol a chyraeddadwy?
 - Ydi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn addas?
 - Ydi'r adroddiad yn glir am oblygiadau y penderfyniad a geisir?
 - Ydi'r risgiau yn eglur?

Atodiad:

Cyllideb 2023/24 (adroddiad Cabinet 14/02/2023)